IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 23 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jacobsen a/ac Sattar |

34 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

35 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – TŶ MADEIRA, HEOL EGLWYS FAIR

Ymgeiswyr: Vito de Gouveia yn cael ei gynrychioli gan Bill Freemen

Parti â Diddordeb: Camilla Azzopardi

Y Cais

Mae cais i amrywio Trwydded Safle wedi cael ei dderbyn oddi wrth Madeira 3 Ltd mewn perthynas â Tŷ Madeira, 32 Heol Eglwys Fair, Caerdydd.

Gwnaeth yr ymgeisydd gais i amrywio'r drwydded fel a ganlyn:

1. Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

   Dydd Llun i Ddydd Sul:

   10:00 tan 01:30

   Nos Galan : 10:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

2. Darparu adloniant a reoleiddir drwy gyfrwng cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawns ac unrhyw beth tebyg (dan do):

   Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 tan 01:30
   Nos Galan : 10:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

3. Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):

   Dydd Llun i Ddydd Sul: 23:00 tan 01:30
   Nos Galan: 23:00 tan 05:00

4. Oriau agor y safle i alluogi'r uchod i ddigwydd:

   Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 tan 02:00
   Nos Galan: 10:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

Ar ddechrau’r cyfarfod clywodd yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn y 15 amod i gyd a ofynnwyd amdanynt yn ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru. Gan fod yr ymgeisydd wedi dod i gytundeb gyda Heddlu De Cymru cafodd y sylwadau a dderbyniwyd gan adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd eu tynnu yn ôl o ganlyniad.

Sylwadau gan y Parti â Diddordeb

Bu Camilla Azzopardi yn annerch yr Is-Bwyllgor. Dywedodd Ms Azzopardi ei bod wedi rhedeg Tŷ Bwyta Charlestons yn Heol Eglwys Fair ers bron i 30 mlynedd. Dros y cyfnod yma meddai, roedd Heol Eglwys Fair wedi dod yn fwy a mwy afreolus, ac yn ei barn hi, byddai trwydded safle arall yn arwain at fwy o broblemau yn yr ardal, yn arbennig os byddai’n weithredol tan 0100.

Dywedodd Ms Azzopardi ei bod yn ceisio denu teuluoedd i’w thŷ bwyta. Rhaid i gwsmeriaid nawr gael eu hebrwng i dacsis, gan fod ymddygiad pobl yn gwaethygu.

Nid oedd Ms Azzorpordi yn credu bod bownsars wedi’u cymeradwyo gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (ADD) yn helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Mae wedi gweld gyda’i llygaid ei hun, ddrwgweithredwyr yn ymladd â Swyddogion yr Heddlu.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Bill Freeman y cais. Atgoffwyd aelodau bod y cais wedi'i ddiwygio yn unol â'r amodau a awgrymwyd yn y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru.

Mae Bwyty Madeira yn fusnes sefydledig yng nghanol y ddinas, gan weithredu o’u safle yng Nghilgant Guildford ers 20 mlynedd. Mae’r brydles ar y safle yn dod i ben ac mae'r ardal yn debygol o gael ei hailddatblygu. Ers gwneud y cais, mae Tŷ Madeira wedi bod yn gweithredu dan y drwydded safle bresennol. Er bod yr ymgeisydd am barchu barn Ms Azzopardi, dywedodd Mr Freeman ei fod wedi mynd i'r afael â'i phryderon yn ddigonol drwy ddod i gytundeb â'r awdurdodau cyfrifol.

Dywedodd Mr Vito de Gouveia eu bod wedi gweithredu o'r safle newydd ers rhai wythnosau. Mae bownsars ar y drysau o 1800. Dywedodd Mr de Gouveia ei fod yn dawel ei feddwl eu bod yn cadw cwsmeriaid yn ddiogel. Nod yr amrywiad i’r cais yw caniatáu i gwsmeriaid gael diod ar ôl gwaith neu cyn mynd i weld sioe.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, yn caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau a gytunwyd.

36 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE – KEVIN’S BAR, HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Bernard Carlton, Cyfarwyddwr<br>Dave Marks, Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig;<br>yn cael ei gynrychioli gan Cameron Patterson |

| | |
|---|---|
| Awdurdod Cyfrifol: | Gwyn Mapp,<br>Gwasanaethau Cymdogaeth, Cyngor Caerdydd |
| Parti â Diddordeb: | Mark McDonald, Cyfreithiwr y lesddeiliad |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Kevin's Bars and Pubs Ltd mewn perthynas â 161 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Gwerthu drwy fanwerthu i'w yfed/fwyta ar y safle ac oddi arno:
(ii) Darparu adloniant a reoleiddir drwy gyfrwng cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, (dan do)
(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do)

(2) Heblaw y dangosir fel arall, caiff yr adeilad fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac yn ystod unrhyw oriau o ganlyniad i'r amseriadau ansafonol:

Dydd Sul i Ddydd Iau: 11:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 11:00 tan 02:00
Nos Galan: 11:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(3) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Gwerthu drwy fanwerthu i'w yfed /fwyta ar y safle ac oddi arno:
Dydd Sul i Ddydd Iau: 11:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 11:00 tan 02:00
Nos Galan: 11:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(ii) Darparu adloniant a reoleiddir drwy gyfrwng cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, (dan do):
Dydd Sul i Ddydd Iau: 23:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 02:00
Nos Galan: 23:00 hyd at ddechrau oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):
Dydd Sul i Ddydd Iau: 23:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 02:00
Nos Galan: 23:00 tan 05:00

Sylwadau'r Awdurdodau Cyfrifol

Bu Gwyn Mapp, Swyddog Gwasanaethau Cymdogaethau, Cyngor Caerdydd yn annerch yr Is-Bwyllgor. Clywodd yr aelodau bod Gwyn Mapp wedi ymweld â'r safle ac ardal Heol Ddwyreiniol y Bont-faen ar ôl derbyn y cais Cymharodd oriau agor safleoedd trwyddedig yn yr ardal, â'r oriau y gwneir cais amdanynt. Roedd yr oriau

y gwnaed cais amdanynt yn sylweddol hirach na'r rhai sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

Mae 75 eiddo preswyl o fewn 50 metr i'r safle, a mynegwyd pryder y byddai cerddoriaeth o'r adloniant a reoleiddir, yn croesi ffiniau gan arwain at niwsans cyhoeddus. Dywedodd Mr Mapp ei fod wedi e-bostio'r ymgeiswyr i ofyn am fwy o wybodaeth parthed rheoli'r sŵn ac unrhyw gamau i liniaru hynny. Ni chafodd ymateb i'w e-bost.

Gofynnodd Mr Cameron Patterson a oedd Mr Mapp yn ymwybodol bod y cais wedi'i amrywio o ganlyniad i gytundeb rhwng yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru. Dywedodd Mr Mapp ei fod wedi dod yn ymwybodol o hynny ddiwrnod cyn y gwrandawiad.

Dywedodd Mr Patterson nad oedd ymateb wedi bod i e-bost Mr Mapp gan fod yr ymgeiswyr yn disgwyl y byddai cais yn dod am adroddiad acwstig. Rhoddodd Mr Patterson gyngor i'w gleientiaid i ofyn i'r Gwasanaethau Cymdogaethau, pa gamau oedd angen iddynt eu gweithredu.

Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol i Mr Mapp esbonio a oedd ei bryderon yn ymwneud â'r amser y byddai'r adloniant a reoleiddiwyd yn dod i ben, neu a oedd yn ymwneud â sŵn yn gyffredinol. Atebodd Mr Mapp drwy ddweud bod y ddau yn peri pryder iddo.

Cydnabu Mr Patterson bod cyfyngiad cynllunio yn ei le yn gwahardd defnydd o'r safle yn hwyrach na 2300. Rhoddwyd ymrwymiad y byddai'r mater hynny'n cael ei ddelio ag e pe bai trwydded safle yn cael ei chaniatáu.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Mr Patterson y cais. Dywedodd Mr Patterson bod Heddlu De Cymru wedi gofyn am 15 amod, a chawsant i gyd eu derbyn gan yr ymgeisydd. Yr unig anghytundeb oedd yn ymwneud â darparu adloniant wedi'i reoleiddio rhwng 2300 a 0100.

Dywedodd Mr Patterson bod yr ymgeiswyr yn bwriadu denu cwsmeriaid ychydig yn hŷn. Byddai lle i hyd at 70 o bobl mewn awyrgylch hamddenol, anffurfiol. Byddai artistiaid byw yn perfformio o dro i dro, er enghraifft byddai jazz yn cael ei chwarae ar ddydd Sul rhwng 1400 a 1800.

Clywodd yr Is-Bwyllgor bod yr ymgeiswyr yn fodlon i asesiad effaith sŵn gael ei gynnal ar y safle, ond i ddechrau roeddent am ddeall mwy am y canllawiau yr oedd disgwyl iddynt eu dilyn. Awgrymwyd felly i'r Is-Bwyllgor ohirio'r rhan honno o'r cais yn ymwneud ag adloniant wedi'i reoleiddio.

Gofynnodd Mr Mapp a oedd yr ymgeiswyr wedi ystyried effaith yr adloniant wedi'i reoleiddio y tu hwnt i 2300. Atebodd Mr Patterson eu bod yn sicr – nid oeddent am weithio yn erbyn y gymuned leol yn y cyswllt hwn ac roeddent yn hapus i gydweithio â swyddogion y Gwasanaethau Cymdogaeth parthed yr agweddau ar sŵn yr oeddent am eu datrys.

Clywodd yr aelodau bod y safle yn cael ei ailddatblygu. Gofynnodd yr aelodau, a fuasai'n well rhoi mesurau gwrthsain yn eu lle nawr, yn hytrach nag aros. Clywodd

yr aelodau nad oedd yr ymgeiswyr am fynd i gost diangen yn seinglosio’r safle ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai’n cael ei wneud os oedd angen.

Dywedodd Mr Carlton y byddai’r ardal y tu fas yn cael ei ddefnyddio fel ardal i smygwyr. Ni fyddai neb yn cael yfed yno wedi 2100. Ni fyddai cerddoriaeth yn cael ei chwarae y tu fas, a byddai’r holl ddiodydd yn cael eu gweini wrth y bar.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun; yn caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau a gytunwyd.

> Rhaid i’r safle gyflogi ymgynghorydd acwstig cymwys (sy’n aelod o’r Institute of Acoustics neu gorff tebyg) i greu adroddiad acwstig sy’n bodloni Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir. Rhaid i unrhyw fesurau lliniaru sŵn a argymhellir yn yr adroddiad a gytunir eu bod yn angenrheidiol gan y Swyddog Gwasanaethau Cymdogaeth, gael eu gweithredu’n llawn cyn i unrhyw adloniant a reoleiddir gael ei gynnal ar y safle.

37 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am